

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MAL/MD/0615/15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Rhagfyr 2015

Annwyl Jocelyn,

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor Cyllid am eich adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Rwyf wrthi'n ystyried argymhellion y Pwyllgor a byddaf yn cyfeirio atynt yn ystod y drafodaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn yfory. Bydd ymateb llawn i argymhellion y Pwyllgor yn dilyn maes o law. Fodd bynnag, cyn y drafodaeth roeddwn eisiau rhannu gwybodaeth bellach gyda chi, a diweddariad technegol ar achos R (on the application of Hemming) (t/a Simply Pleasures Ltd) (Respondents) v Westminster City Council (Appellant), a'i effaith bosibl ar y Bil.

Cefndir yr achos

Roedd yr achos yn ymwneud â grŵp o berchnogion siop ryw yn Westminster a heriodd Gyngor Dinas Westminster ynghylch lefel y ffioedd trwydded a'r broses a ddilynwyd i'w pennu. Yn flaenorol, roedd yn ofyniad gan y Cyngor fod rhai o oedd yn gwneud cais am drwydded siop ryw yn talu swm sylweddol (£29,435 yn 2011/12) gyda'u cais. Roedd hwn yn cael ei rannu yn swm llai (£2,667 yn 2011/12) a oedd yn gysylltiedig â phrosesu'r cais, a swm mwy (£26,435 yn 2011/12) a oedd yn gysylltiedig â gweinyddu a gorfodi'r drefn drwyddedu gyfan. Roedd yn bosibl ad-dalu'r swm mwyaf pe byddai cais yn aflwyddiannus.

Roedd yr atebudd yn honni bod y system a ddefnyddiodd Westminster yn anghyfreithlon o dan y gyfraith ddomestig a chyfraith yr UE. Y prif achos oedd nad oedd sail dros fynnu bod ymgeiswyr llwyddiannus nac ymgeiswyr aflwyddiannus yn talu costau gweinyddu a gorfodi'r drefn. Yr achos eilaidd oedd nad oedd sail dros fynnu bod costau o'r fath yn cael eu talu gyda'r cais, hyd yn oed os oedd modd cael ad-daliad. Roedd y Llys Apêl yn cytuno â phrif achos yr atebudd, ac roedd o'r farn fod rhaid i awdurdod fel Westminster dalu costau o'r fath allan o'i ardrethi cyffredinol neu gronfeydd eraill.

Yn dilyn hynny, apeliodd Gyngor Dinas Westminster i'r Goruchaf Lys. Daeth y Goruchaf Lys i'r casgliad isod:

- Mae paragraff 19 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn galluogi awdurdod trwyddedu i godi ffi ar ymgeisydd am ganiatáu neu adnewyddu trwydded at ddibenion costau rhedeg a gorfodi'r cynllun trwyddedu. Gellir talu'r ffi hwn naill ai (a) adeg caniatáu'r drwydded; neu (b) ar sail ad-daliadwy, adeg cyflwyno'r cais.
- Mae erthygl 13(2) o Gyfarwyddeb 2006/123/EC yn ymdrin â gweithdrefnau awdurdodi a ffioedd sy'n gysylltiedig â cheisiadau am ganiatâd i ymarfer neu gael mynediad at weithgaredd gwasanaeth, megis rhedeg siop ryw, a dim mwy na hynny. Nid yw'n atal codi tâl cymesur ar y sawl y caniateir trwydded iddynt, at ddibenion costau gweinyddu a gorfodi y drefn drwyddedu.

Mae'r mater ynghylch amseriad taliadau am drwyddedau wedi cael ei gyfeirio at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Sut mae hyn yn berthnasol i Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Mae'r Bil yn sefydlu system drwyddedu mewn perthynas â thriniaethau arbennig. Mae'r achos, felly, yn uniongyrchol berthnasol i'r darpariaethau hyn. Ni chredir bod yr achos yn effeithio ar rannau eraill o'r Bil.

Yn ei adroddiad, roedd y Pwyllgor yn gwneud y sylw fod y Goruchaf Lys wedi ystyried dwy senario bosibl yn ymwneud â'r achos:

- "Cynllun Math A" lle mae awdurdod lleol yn codi tâl ar ymgeisydd am gostau gwneud y cais, pan fo'n gwneud cais i gofrestru. Yna, mae'n codi ffi ychwanegol ar ymgeisydd llwyddiannus at ddibenion costau rhedeg a gorfodi'r cynllun; a
- "Cynllun Math B" lle codir tâl am gostau rhedeg a gorfodi'r cynllun pan wneir y cais, ond caiff ei ad-dalu i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Roedd y Goruchaf Lys o'r farn fod Cynllun Math A yn ganiataol o dan y gyfraith ddomestig a chyfraith Ewrop. Fodd bynnag, o ran Cynllun Math B, roedd y Llys o'r farn y dylid cyfeirio'r mater at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn darganfod a oedd cynllun o'r fath yn gyson â chyfraith Ewrop. Yn y bôn, cwestiwn ynghylch amseru yw hwn. Hynny yw, a ellir codi tâl am y costau o dan gynlluniau Math B ar sail ad-daliadwy ar yr adeg y gwneir y cais ai peidio.

Nid yw Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd wedi rhoi ei ddyfarniad ar y mater hwn eto, ond fy mwriad yw fod awdurdodau lleol i gael yr hyblygrwydd i godi ffioedd rhesymol, sut bynnag y maent yn dymuno gwneud hynny. Mater i'r awdurdodau lleol fydd penderfynu a ydynt yn dymuno defnyddio 'Cynllun Math A' neu 'Gynllun Math B'.

Rwyf yn ystyried ar hyn o bryd a oes angen gwneud gwelliant er mwyn i'r pwynt fod yn fwy eglur. Byddaf yn sicrhau bod y Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn ymdrin â'r pwynt hwn pan gaiff ei ddiweddarau yn dilyn ystyriaethau Cam 2.

Rwyf yn gobeithio y bydd yr wybodaeth a geir yn y llythyr hwn yn rhoi'r eglurhad yr oedd aelodau'r Pwyllgor yn dymuno ei gael. Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, oherwydd y codwyd y mater hwn hefyd yn ei adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

Mark Drakeford AC / AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services